HWLG(3)-SCB011- Bwrdd Lleol Diogelu Plant Wrecsam

# Y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol

## Ymchwiliad i Fyrddau Lleol Diogelu Plant yng Nghymru - Tystiolaeth gan Fwrdd Lleol Diogelu Plant Wrecsam

**Ymchwiliad Pwyllgor Iechyd, Ffyniant a Llywodraeth Leol:**
**Byrddau Lleol Diogelu Plant (2010)**
**Ymateb LSCB Wrecsam**

**DIBEN:**
Rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor Iechyd, Ffyniant a Llywodraeth Leol ar berfformiad LSCB ar hyd a lled Cymru wrth atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer yr amddiffyn a hyrwyddo lles plant.

**CEFNDIR:**
Pennodd y Pwyllgor Iechyd, Ffyniant a Llywodraeth Leol yn ei gylch gorchwyl ganolbwynt arbennig ar gylchoedd penodol fel y mynegir isod. Byddai LSCB Wrecsam yn dymuno cyflwyno'r dystiolaeth ganlynol ar bob eitem.

**1) Priodoldeb Polisi a Chanllawiau presennol Llywodraeth Cymru fel y mae'n ymwneud â LSCB:**

1.1 Mae'r wybodaeth a ddarparwyd ym mhwyntiau 2-8 yn ymgorffori sylwadau mewn cysylltiad â Pholisi a Chanllawiau presennol Llywodraeth Cymru fel sy'n berthnasol i Fyrddau Lleol Diogelu Plant (LSCB). Yn ogystal, byddem yn hoffi rhagor o gyfarwyddyd ar y berthynas rhwng LSCB a swyddfa'r crwner o ran canlyniad archwiliadau post-mortem yn SUDI. Er enghraifft datblygu safonau ar sut mae'r gwasanaeth iechyd a swyddfa'r crwner yn darparu gwybodaeth.

1.2 Mater ychwanegol fyddai'n elwa ar ganllawiau polisi yw gallu / pŵer LSCB wrth nodi pryderon ynghylch ymarferwyr annibynnol yn gweithredu gydag achrediad proffesiynol, er enghraifft gwasanaethau cynghori personol. Meysydd i'w hystyried o fewn canllawiau polisi yw'r broses sy'n ymwneud â gwneud her, pa gorff neu gyrff y byddai LSCB yn cysylltu â hwy i fynegi pryderon, sut mae herio sefydliad cenedlaethol, er enghraifft, maint unrhyw gamau all gael eu cymryd a gan bwy ac ati.

1.3 Yn werth sylw mae paragraff 1.3 o Adolygiad Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdod Lleol a Byrddau Lleol Diogelu Plant, Hydref 2009, sy'n crybwyll thema fynych yn ymddangos o'r adolygiad sef bod 'anghydbwysedd yn sut mae sefydliadau a gweithwyr proffesiynol yn cyflawni eu cyfrifoldebau mewn cysylltiad â diogelu a hyrwyddo lles plant, gyda gormod o ymddiried a disgwyliad ar wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Mae angen i bolisi ac arferion gyd-fynd yn fwy cyson ar draws holl sefydliadau, yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol i alluogi gweithio'n fwy effeithiol gyda'i gilydd i amddiffyn a diogelu plant'.

1.4 Ar sail yr argymhellion a wnaed yn Adroddiad Grŵp Adolygu Rheoliadau a Chanllawiau LSCB Cymru (Mawrth 2008), dylid diweddaru Amddiffyn Plant: Cydweithio dan Ddeddf Plant 2004, i roi cyngor priodol ar gymhwyso Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006.

**2) Priodoldeb cwmpas a chanolbwynt cyfrifoldebau LSCB:**

2.1 Mae cwmpas cyfrifoldebau LSCB sy'n cael eu cyflwyno yn Amddiffyn Plant: Cydweithio dan Ddeddf Plant 2004 yn cefnogi ehangder yr agenda diogelu. Fodd bynnag mae angen diffinio mwy arno a'i gyllido'n briodol, mae angen sicrhau nad ydym yn caniatáu bod diogelu ac amddiffyn plant yn dod yn gyfystyr. Mae angen ddiffinio'r fframwaith atebolrwydd ar amddiffyn plant a'r fframwaith atebolrwydd ar ddiogelu yn fwy eglur. Busnes LSCB yw arwain diogelu ond mae angen mwy o eglurder ar sut mae hyn yn dod i'r amlwg ar ben amddiffyn plant. (Hefyd gwelwch adran 5)

2.2 Mae angen gwybod mwy am gwmpas cyfrifoldebau LSCB ym Mhennod 4 o Amddiffyn Plant: Cydweithio dan Ddeddf Plant 2004 trwy ddarllen ar draws o Bennod 2 ar effaith Adran 28 o Ddeddf Plant 2004. Er enghraifft, ymgorffori plant yng Nghyfundrefn Cyfiawnder Ieuenctid, gan gyfeirio'n arbennig at blant yn yr ystâd ddiogel.

**3) Aelodaeth LSCB gan gyfeirio at swyddogaeth partneriaid statudol a hefyd y sector gwirfoddol a sefydliadau llai / arbenigol:**

3.1 Rydym yn cytuno â'r cyfarwyddyd fel y mae ar aelodaeth. Mater i'w benderfynu'n lleol yw nifer cynrychiolwyr asiantaethau unigol sydd ymhob Bwrdd (oddi allan i gyfarwyddyd statudol). Mae'r cyfarwyddyd yn darparu ar gyfer aelodaeth briodol ymhob un o'r asiantaethau partner.

3.2 Mae mater cadeiryddion annibynnol wedi bod yn cael ei ystyried ers cryn amser gyda dadleuon o bobtu. Mae'n amlwg nad oes ateb syml i'r mater hwn oherwydd y cymhlethdodau dan sylw – fodd bynnag y teimlad yw mai sgiliau, profiad a gwybodaeth yr unigolion ac nid eu hannibyniaeth o reidrwydd / yn unig fydd yn sicrhau cadeirio ac arwain yr LSCB yn effeithiol. Byddai rhaglen hyfforddi genedlaethol ar gyfer cadeiryddion LSCB yn ddefnyddiol iawn, fel y byddai cyflwyno diffiniad eglur o'r casgliad sgiliau gofynnol i ymgymryd â'r swyddogaeth hon yn y canllawiau.

3.3 Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) ystyried sut i roi sylw i berchenogaeth amddiffyn ar lefel anweithredol ac aelod etholedig am nad oes unrhyw arweiniad eglur ar hyn ar hyn o bryd. Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol bod Cyfarwyddyd Cydweithio yn Lloegr ar aelodaeth LSCB yn benodol mewn cysylltiad ag Aelodau Etholedig ALl a chyfarwyddwyr anweithredol Partneriaid eraill y Bwrdd na ddylent fod yn aelodau o'r LSCB ac, yn hytrach, '*Eu swyddogaeth, trwy eu haelodaeth o gyrff llywodraethu fel cabinet yr ALl neu bwyllgor archwilio neu fwrdd llywodraethu, yw gwneud eu sefydliad a'i swyddogion yn atebol am eu cyfraniad at weithredu effeithiol yr LSCB. Mae'r Aelod Arweiniol ar wasanaethau plant yn yr ALl yn canolbwyntio'n arbennig ar sut mae'r ALl yn cyflawni ei gyfrifoldebau i amddiffyn a hyrwyddo lles plant, a bydd yn gwneud y DCS yn atebol am waith y LSCB'.*

3.4 Mae materion gallu sefydliadau rhanbarthol (e.e. Iechyd, Yr Heddlu, a Phrofiannaeth) i gynnig cynrychiolaeth briodol mewn LSCB lluosog. Un ateb yw cyd-doddi LSCB ond, fodd bynnag, mae hyn yn creu heriau eraill o ran y rhyngwyneb rhwng LSCB a phartneriaethau seiliedig ar fro, h.y. Byrddau Gwasanaethau Lleol (LSB), Partneriaethau Diogelwch Cymunedol (CSP), Byrddau Partneriaeth Fframwaith Plant a Phobl Ifanc (CYPFWPB) a Phartneriaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Ffyniant (HSCWBP).

**4) Trefniadau ar gyfer cyllido LSCB:**

4.1 Er ei fod yn ddefnyddiol, nid yw'r cyfarwyddyd presennol ar gyllido'n ddigon gorchmynnol i sicrhau bod holl LSCB yn cael eu cyllido'n ddigonol. Dylid comisiynu gwaith i ganfod ***gwir*** gost (yn ystyried holl agweddau gan gynnwys costau cynyddol adolygiadau achosion difrifol) rhedeg LSCB effeithiol. Dylai ystyried gwaith Grŵp Adolygu Rheoliadau a Chanllawiau LSCB Cymru 2007/08 (sy'n ymgorffori arolwg a wnaeth ACPC yn Lloegr (2006) ar yr adnoddau cyfartalog y gellid disgwyl i LSCB fod eu hangen) ac unrhyw ymchwil ddiweddar arall mewn cysylltiad â'r maes hwn, gyda golwg ar roi gwybodaeth / disgwyliadau eglur i LSCB ar hyd a lled Cymru.

4.2 Rydym yn cefnogi'r argymhelliad a wnaed yn Adroddiad Grŵp Adolygu Rheoliadau a Chyfarwyddyd LSCB Cymru (Mawrth 2008) – 'dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ymgynghori ar batrwm cyllido LSCB yng Nghymru, dylid cyhoeddi'r patrwm cyllido a gytunwyd (a'i adolygu'n rheolaidd) fel canllawiau anstatudol mewn adolygiad o Amddiffyn Plant: Cydweithio dan Ddeddf Plant 2004'.

4.3 O dderbyn pwysigrwydd gwaith LSCB dylid clustnodi cyfran o gyllideb Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal gweithrediad – byddai'n arbennig o ddefnyddiol i bob LSCB pe bai cyllid ar gael i Reolwyr Busnes, o dderbyn y dystiolaeth sydd o'u heffaith ar effeithiolrwydd LSCB, – 'Roedd cyllid yn cael ei ddefnyddio at amrywiaeth o ddibenion, gan gynnwys penodi rheolwr busnes oedd, ar ôl ei wneud, yn amlwg yn galluogi LSCB ddod yn fwy effeithiol wrth gyflawni eu cylch gwaith', *(Adolygu Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol a Byrddau Lleol Amddiffyn Plant, Hydref 2009).*

**5) Y berthynas rhwng LSCB â phartneriaethau lleol eraill, gan gynnwys Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc; Partneriaethau Diogelwch Cymunedol; Byrddau Gwasanaethau Lleol; y Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd arfaethedig:**

5.1 Mae dau fater allweddol o ran y berthynas rhwng LSCB â phartneriaethau lleol eraill, y ddau'n deillio o fwlch mewn cyfarwyddyd perthnasol a dogfennau polisi ar *ddisgwyliadau / gofynion eglur* y partneriaethau eraill mewn cysylltiad â'r LSCB:

5.1.1 Atebolrwydd – mae angen trefniadau llywodraethu mwy eglur i nodi ble mae'r partneriaethau eraill yn atebol i'r LSCB mewn cysylltiad â diogelu a swyddogaeth LSCB wrth herio partneriaethau eraill ar eu perfformiad dan yr agenda diogelu. Yr awgrym yw ystyried mwy ar Atodiad A (detholiad o Adroddiad Grŵp Adolygu Rheoliadau a Chanllawiau Byrddau Lleol Diogelu Plant Cymru, Mawrth 2008) dros Gymru gyfan a'i le yn unrhyw adolygiad "Amddiffyn Plant: Cydweithio dan Ddeddf Plant 2004".

5.1.2 Cyfathrebu – Byddai dulliau cyfathrebu rhwng y partneriaethau a'r LSCB yn elwa ar fwy o gefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru trwy roi neges glir i sicrhau bod holl bartneriaethau, gan gynnwys y CYLl, yn gwrando, yn clywed a hyd yn oed yn hysbysu'r LSCB o'u gwaith sy'n cysylltu â'r agenda diogelu ehangach.

5.1.3 Felly, mae'n cael ei awgrymu y dylid datblygu rhagor o gyfarwyddyd sy'n cynnwys swyddogaeth holl gyrff partneriaeth a'u perthynas â gwaith LSCB, a'u cyfranogiad ynddo.

5.2 Mewn cysylltiad â'r Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd (IFSS) – mae cefnogaeth dda i drefniadau o ran cynllunio, llywodraethu, polisi a chanllawiau diogelu a

dylai'r IFSS arfaethedig ddod o fewn y cyd-destun hwnnw. Fodd bynnag, dylid ystyried sut ddylai'r swyddogion Safonau Gwaith Cymdeithasol Teuluol (Adran 66 Mesur Plant a Theuluoedd 2010) fod yn rhan o strwythur LSCB.

**6) Effeithiolrwydd LSCB wrth hyrwyddo diogelwch a lles grwpiau penodol o blant agored i niwed fel plant gydag anableddau, plant sy'n geisiwr lloches a phlant sy'n cael eu masnachu, plant duon a lleiafrifol ethnig:**

6.1 Cawsom hi'n anodd gwneud hyn yn effeithiol o ran gallu a chost ar draws rhychwant llawn grwpiau plant agored i niwed, yn enwedig wrth i wybodaeth ehangu am ddiogelu ddatblygu rhychwant y grwpiau plant agored i niwed. Mae'n amlwg y byddai galwadau arbennig o gwmpas grwpiau penodol o blant ifanc agored i niwed yn nhiriogaeth pob awdurdod lleol yng Nghymru – yr her yw sicrhau digon o ymwybyddiaeth ymhob ardal i ddiwallu'r angen. Mae angen cefnogi LSCB dros Gymru gyfan i fod yn fwy effeithiol o ran y mater hwn. Dylid ystyried nodi ardaloedd yng Nghymru lle mae mwy o faterion penodol yn bodoli (er enghraifft gyda masnachu plant, ceiswyr lloches ac ati) a chyfeirio'r LSCB lleol perthnasol i arwain ar y mater hwnnw trwy wneud ymchwil, datblygu polisi a rhannu arferion gorau gyda gweddill Cymru. Efallai y gellid cyflawni hyn trwy gyflwyno swyddogaeth LSCB ymgynghorol / begwn i gefnogi LSCB eraill pan fydd arnynt angen cyngor ar faterion arbennig. Byddai LSCB yn croesawu adnoddau ychwanegol i hwyluso hyn.

**7) Effeithiolrwydd LSCB yn eu swyddogaeth benodol o ran hyrwyddo cyfrifoldebau a dyletswyddau rhannu gwybodaeth asiantaethau partner LSCB:**

7.1 Ar hyd a lled Cymru mae nifer o brotocolau rhannu gwybodaeth yn bodoli ar gyfer LSCB. Byddai'n ddefnyddiol cysoni'r rhain ar gyfer Cymru gyfan.

7.2 Mater allweddol a nodwyd mewn cysylltiad â rhannu gwybodaeth yw mesur perfformiad, h.y. rhannu mesurau perfformiad amlasiantaethol cyfredol perthnasol a rhannu gwybodaeth i gefnogi datblygu mesurau perfformiad LSCB ar y cyd. Er enghraifft nododd y papur cyfarwyddo C4OE (Hydref 2009) ar gyfer Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant yn Lloegr rai dangosyddion perfformiad ar y cyd y gellid eu defnyddio'n amlasiantaethol. Yn draddodiadol canolbwyntiwyd ar wybodaeth am berfformiad amddiffyn plant ac mae angen i ni weithio gyda'n gilydd i symud y maes hwn i'r maes 'diogelu' - sy'n gofyn rhannu gwybodaeth amlasiantaethol i roi'r darlun ehangach. Byddai datblygu casgliad cenedlaethol o fesurau ar gyfer LSCB yn cynorthwyo LSCB yn y maes hwn.

7.3 Yn werth eu hystyried mae'r sylwadau a wnaed yn Adroddiad Grŵp Adolygu Rheoliadau a Chanllawiau LSCB Cymru (Mawrth 2008) 'Mae'r cyfarwyddyd yn Amddiffyn Plant: Cydweithio dan Ddeddf Plant 2004 yn rhoi cyflwyniad da, sylfaenol i'r pwnc hwn (rhannu gwybodaeth). Fodd bynnag, gellid ei ddiwygio i fod yn fwy eglur. Yn arbennig, mae angen pwysleisio mwy ar allu staff i rannu gwybodaeth er mwyn atal a chefnogi datgeliad, ymchwiliad a chosbi troseddu difrifol a/neu atal cam-drin neu niwed difrifol i eraill'. Arweiniodd hyn at argymhelliad y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ymgynghori ar gyfarwyddyd diwygiedig ar gyfrifoldebau a dyletswyddau rhannu gwybodaeth asiantaethau partner LSCB.

**8) Effeithiolrwydd LSCB wrth gynnwys plant a phobl ifanc yn eu gwaith.**

8.1 Dyma faes i'w ddatblygu. Deallwn fod rhai LSCB ar hyd a lled Cymru wedi cymryd camau i sefydlu 'LSCB Iau', a byddai cefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r gweithgaredd hwn ar hyd a lled Cymru'n cael ei groesawu. Yr her yw sicrhau, pan fo LSCB yn cynnwys plant a phobl ifanc, eu bod yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n ystyrlon iddynt eu hunain **a'r** plant a phobl ifanc a bod LSCB yn cyfuno, lle bo modd, gyda threfniadau eraill lleol (fforymau ieuenctid) a chenedlaethol (y ddraig ffynci). Ni ddylid ond ystyried yn unig 'sut mae cynnwys plant a phobl ifanc yn yr agenda diogelu' ond hefyd 'eu barn ar yr agenda SG' – a'r un materion sy'n bwysig i ni ag iddynt hwy? Dylid cefnogi plant a phobl ifanc i nodi eu hagenda diogelu eu hunain. Byddai hyn yn rhoi cyfleoedd i ddod gryn dipyn yn fwy effeithiol mewn meysydd fel diogelu mewn cysylltiad â gwefannau rhwydweithio cymdeithasol ac ati. Dylid ystyried y swyddogaeth a allai fod gan swyddfa Comisiynydd Plant Cymru wrth gynnal y broses hon.

**CRYNODEB / ARGYMHELLIAD**

Mae LSCB Wrecsam yn ystyried ei hun fel Bwrdd sy'n gweithio'n dda, ar sail defnyddio LSCB SAIT V6 a chanlyniad Archwiliad Adolygu SG ym mis Awst 2009. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth uchod yn amlinellu'r materion sy'n herio LSCB yn lleol ac yn genedlaethol.

Rhoddodd y cyfarwyddyd gwreiddiol yn cefnogi sefydlu LSCB ddechrau da ond mae cymhlethdod parhaus yr agenda diogelu'n dangos yr angen am ragor o gefnogaeth llywodraeth genedlaethol i sicrhau cyflawni'r agenda hwnnw ar adeg arbennig o anodd i wasanaethau cyhoeddus.

**ATODIAD A**

**Gorchwylion a Chyfrifoldebau**

Detholiad o Adroddiad y Grŵp Adolygu Rheoliadau a Chanllawiau Byrddau Lleol Diogelu Plant Cymru, Mawrth 2008.

Mae'r Grŵp Adolygu wedi edrych ar amrywiaeth y gweithgareddau a allai fod o fewn cwmpas 'diogelu'. Mae'r tablau canlynol yn ffordd o rannu cyfrifoldeb dros wahanol agweddau ar ddiogelu i sefydliadau'r bartneriaeth bresennol (LSCB, C&YPP, HSCWB, CSP). Eto mae hyn yn adlewyrchu sut mae llawer o LSCB yn meddwl, a darodd ar raniadau tebyg mewn gwaith a wnaed yn yr achlysuron datblygu LSCB ym mis Medi 2007.

**Arweinydd Strategol – LSCB**

| | **Swyddogaeth LSCB** |
|---|---|
| Diogelu plant sy'n dioddef niwed sylweddol neu sydd mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol, o ganlyniad i gamdriniaeth neu esgeulustod o fewn y cartref / teulu | Cytuno ar drothwyon ar gyfer ymyriad.<br>Gweithdrefnau<br>Protocolau<br>Cynyddu ymwybyddiaeth<br>Gwneud SCR |
| Diogelu plant rhag cael eu cam-drin gan ddieithriaid | |
| Diogelu plant rhag cael eu cam-drin gan gyfoedion | |
| Diogelu plant rhag manteisio arnynt yn rhywiol | |
| Ymholiadau amddiffyn plant | |
| Diogelwch ar y rhyngrwyd – paratoi a manteisio / cam-drin rhywiol | |
| Diogelwch ar y rhyngrwyd – mynediad at bornograffi a delweddau treisiol | |
| Diogelwch ar y rhyngrwyd – "sgwrsio" amhriodol | |
| Diogelwch mewn lleoliadau gofal | |
| Diogelwch mewn gofal maeth preifat | |
| Adolygiadau Achosion Difrifol | |
| Adolygiadau Marwolaeth Plant (yn amodol ar waith parhaol) | |
| Protocolau rhwng asiantaethau, gan gynnwys:<br>• rhannu gwybodaeth<br>• cynnal ymchwiliadau Adran 47<br>• cwynion ynghylch cynadleddau CP<br>• trefniadau gweithio gyda CSSIW. | |
| Cynyddu ymwybyddiaeth | |
| Gweithdrefnau cydgysylltu camau gweithredu | |
| Adolygiad o fesurau asiantaethau partner | |
| Mesur perfformiad cynllun gwasanaeth plant – elfen ddiogelu | |
| Gwybodaeth am arferion gorau | |
| Ymchwil i ddiogelu | |
| Hyfforddiant rhwng asiantaethau | |

**Arweiniad Strategol – Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc**

| | **Swyddogaeth LSCB** |
|---|---|
| Diogelwch yn yr ysgol | Derbyn adroddiadau. Arolygu Cloriannu agweddau diogelu ar y Cynllun Plant a Phobl Ifanc |
| Mynediad at gyngor a chyfarwyddyd | |
| Mynediad at wasanaethau eiriol | |
| Mynediad at wasanaethau lles | |
| Mynediad at wasanaethau addysg | |

**Arweiniad Strategol – Swyddogaeth Partneriaethau Diogelwch Cymunedol**

| | **Swyddogaeth LSCB** |
|---|---|
| Diogelwch ar y ffyrdd | Derbyn adroddiadau. Arolygu |
| Diogelwch gartref (ac eithrio camdriniaeth ac esgeulustod) | |
| Diogelwch wrth chwarae | |
| Amddiffyn rhag bwlio | |
| Diogelwch rhag trosedd | |
| Diogelwch rhag trais | |
| Diogelwch yn y gymuned | |
| Amddiffyn rhag camddefnyddio sylweddau | |
| Amddiffyn rhag camdriniaeth deuluol | |

**Arweiniad Strategol – Partneriaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Ffyniant**

| | **Swyddogaeth LSCB** |
|---|---|
| Diogelwch mewn sefydliadau iechyd | Derbyn adroddiadau. Arolygu |
| Hybu iechyd (gan gynnwys hybu iechyd meddwl) | |
| Mynediad at wasanaethau iechyd ataliol | |
| Mynediad at gwasanaethau iechyd sylfaenol | |
| Bwyta’n iach | |

Mae’n amlwg nad oes terfynau pendant bob amser. Er enghraifft, mewn cysylltiad â “diogelwch rhag trosedd” y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol fydd â’r rhan arweiniol, yn gyffredinol. Fodd bynnag, pan fo trosedd yn cynnwys cam-drin plant trwy gamdriniaeth neu esgeulustod, manteisio rhywiol, priodas dan orfod, ac ati, bydd gan yr LSCB gyfrifoldeb ar y cyd, fan leiaf, neu gall arwain (er enghraifft wrth ddatblygu trefnau a phrotocolau rhwng asiantaethau).

**Argymhelliad:**

Y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ymgynghori ar ragor o gyfarwyddyd ar gwmpas a chyfrifoldebau LSCB a sefydliadau partneriaeth eraill mewn cysylltiad â diogelu.